# Asesiad Llwybrau Cerdded i Ysgolion Rhondda Cynon Taf

## Trehafod i Ysgol Gymuned y Porth

Mawrth 2025



# YMWADIAD CYFFREDINOL:

Cafodd yr adroddiad yma ei baratoi gan Redstart o blaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("y Cleient") ac mae at ddefnydd a budd y Cleient yn unig yn unol â'r cytundeb rhwng y Cleient a Redstart y cafodd gwasanaethau Redstart eu cyflawni oddi tano. Heblaw am atebolrwydd nad oes modd ei eithrio yn ôl y gyfraith, dydy Redstart ddim yn derbyn unrhyw atebolrwydd i unrhyw barti arall mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad yma.

Er y cymerwyd gofal wrth lunio'r adroddiad yma, mae'r casgliadau a'r argymhellion sydd ynddo yn seiliedig ar wybodaeth a gafodd ei darparu gan drydydd parti ("Gwybodaeth Trydydd Parti"). At ddibenion yr adroddiad yma, mae Redstart wedi dibynnu ar yr Wybodaeth Trydydd Parti a chymryd yn ganiataol ei bod yn gywir ac yn gyflawn. Nid yw wedi gwirio gwybodaeth o'r fath yn annibynnol at ddibenion yr adroddiad yma. Dydy Redstart ddim yn gwneud unrhyw gynrychiolaeth, gwarant nac ymgymeriad (datganedig neu ymhlyg) yng nghyd-destun Gwybodaeth Trydydd Parti a dydy Redstart ddim yn cymryd nac yn derbyn cyfrifoldeb am ddigonolrwydd, cyflawnrwydd na chywirdeb yr adroddiad yng nghyd-destun yr Wybodaeth Trydydd Parti sy'n sail iddo.

.

# RHYDDID GWYBODAETH:

Mae Redstart yn deall ac yn cydnabod rhwymedigaethau a chyfrifoldebau cyfreithiol yr Awdurdod o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y "Ddeddf") ac mae'n llwyr werthfawrogi y gallai fod yn ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu unrhyw wybodaeth sydd ganddo o dan delerau'r Ddeddf.

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 1
2. Aliniad Polisi 2
3. Gweithdrefnau 4
4. Lleoliad y Safle a Llwybr Cerdded 5
5. Arolygon Cerddwyr / Traffig 26
6. Materion Cymdeithasol 30
7. Data Gwrthdrawiadau 31
8. Trosolwg Llwybr 32
9. Casgliadau ac Argymhellion 34

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Redstart wedi cael ei gomisiynu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) i gynnal asesiad i weld a oes llwybr cerdded ar gael rhwng Trehafod (Tafarn y Bertie) ac Ysgol Gymuned y Porth, Porth.

1.2 A siarad yn gyffredinol, bydd llwybr ar gael os yw'n ddigon diogel i ddisgybl gerdded ar ei ben ei hun, neu yng nghwmni oedolyn priodol, gan ddibynnu ar oedran y disgybl. Yn rhan o waith asesu’r llwybr cerdded, bydd asesiad o'r peryglon sy’n wynebu plant a’r rhieni/cynhalwyr sy’n eu hebrwng ar hyd y llwybr rhwng y cartref a’r ysgol angen yn cael ei gynnal.

1.3 Bydd asesiadau o’r fath yn dilyn Darpariaethau Statudol Llywodraeth Cymru ar yr Asesiad Risg o Lwybrau Cerdded i’r Ysgol, fel y nodir yn Narpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr 2014.

# 2. Aliniad Polisi

2.1 Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn nodi'r fframwaith cyfreithiol y gwneir darpariaethau teithio oddi mewn iddo ar gyfer dysgwyr sy'n teithio o'r cartref i'r ysgol. Ym mis Mehefin 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr i gynorthwyo awdurdodau lleol i roi'r Mesur ar waith.

2.2 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i asesu anghenion teithio dysgwyr sy'n cerdded i'r ysgol. Mae'r Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr yn galluogi awdurdodau lleol i benderfynu a yw llwybr i'r ysgol 'ar gael' (diogel) i'w gerdded neu'n cael ei ystyried 'ddim ar gael' (anniogel) a'r mesurau diogelu y gellid eu rhoi ar waith i sicrhau bod y llwybr 'ar gael' (yn ddiogel) i'w gerdded neu y gall ddod yn 'ddiogel'.

2.3 Mae dogfen Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r materion a ganlyn gael eu hystyried wrth asesu llwybr;

Er mwyn i lwybr gael ei ddosbarthu'n un sydd ar gael (diogel) mae angen i'r llwybr fod;

- Yn droedffordd ddigonol barhaus ar ffyrdd sy'n cludo traffig canolig i drwm; **neu**
- "Camau i lawr" ar ffyrdd sydd â llif traffig isel ond llinellau gweld digonol i roi digon o rybudd ymlaen llaw i yrwyr a cherddwyr; **neu**
- Ar ffyrdd gyda llif traffig isel iawn, dim "camau i lawr", ond digon o linellau gweld da i roi digon o rybudd ymlaen llaw.

Os oes angen croesi ffyrdd, argymhellir bod un o'r mesurau diogelwch canlynol;

- Lloches i gerddwyr; **neu**
- Gwelededdd – dylai fod yn ddigon da i ganiatáu i gerbydau stopio'n ddiogel (o ystyried y rheol cyflymder yr 85fed canradd, mae pellteroedd stopio cerbydau fel y rhai a nodir yn Rheolau'r Ffordd Fawr); **neu**
- Digon o fylchau yn llif y traffig a'r llinell weld i ganiatáu digon o gyfleoedd i groesi'n ddiogel; **neu**
- Digon o gyfleusterau croesi (er enghraifft, croesfannau sebra, pelican); **neu**
- Digon o gamau i gerddwyr wrth y goleuadau traffig (gan gynnwys llochesi angenrheidiol); **neu**
- Digon o Hebryngwyr Croesfan Ysgol (pobl lolipop).

2.4 Dylid ystyried y wybodaeth ganlynol fel y manylir yn y ddogfen Teithio gan Ddysgwyr a'i chrynhoi isod;

a) Cyfyngiadau cyflymder o gwmpas neu gerllaw ysgolion;

b) Llif traffig dwy ffordd a gofnodir mewn Unedau Ceir Teithwyr (PCUs) - mae llif traffig isel yn cael ei bennu o dan 400 o gerbydau mewn cyfnod o awr, llif traffig canolig rhwng 400 ac 840 a llif traffig trwm dros 840 o gerbydau yr awr. Asesir bod ffordd â llai na 240 o gerbydau yr awr yn ddiogel i'w chroesi, sy'n cyfateb i 1 cerbyd bob 15 eiliad;

c) Mae angen dadansoddiad o fylchau mewn traffig am 5 munud yn olynol. Ystyrir bod 4 bwlch o fewn cyfnod o 5 munud o'r fath yn dderbyniol, ar gyflymder cerdded o un metr yr eiliad. Bydd modd i'r rhan fwyaf o bobl groesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad tra bydd angen bwlch mwy o tua 10 i 12 eiliad ar eraill;

d) Hanes gwrthdrawiadau blaenorol am 3 blynedd o leiaf;

e) Lled, cyflwr, a gweledEdd llwybr troed. Ar ffyrdd â llif traffig isel gellir tybio fel arfer bod llain ymyl y gall plentyn a'r rhiant sy'n ei hebrwng gamu arni pan fydd traffig yn mynd heibio yn darparu llwybr sydd ar gael;

f) Lle mae angen croesi ffyrdd, argymhellir y dylid ystyried argaeledd cyfleusterau croesi megis llochesi canolog, croesfannau cerddwyr neu arwyddion traffig;

g) Dylid ystyried llifogydd posibl ac, os oes angen, nodweddion diogelwch gan gynnwys arwyddion, goleuadau, rhwystrau diogelwch;

h) Unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ardal a allai gael effaith ar lwybrau cerddwyr;

i) Croesfannau rheilffordd;

j) Perygl cymdeithasol a achosir gan unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol posibl;

k) Unrhyw newidiadau i nodweddion y bobl sy'n cerdded y llwybr.

2.5 Mae Perygl Cymdeithasol yn agored i ddehongliadau gwahanol ac mae'n oddrychol. O ran mesur perygl cymdeithasol, dylai tystiolaeth fod ar fael i nodi unrhyw beryglon o'r fath.

2.6 Wrth gynnal asesiadau risg, argymhellir bod awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau/asiantaethau sydd ag arbenigedd mewn (gan gynnwys cyfrifoldeb am) fynd i'r afael â pherygl cymdeithasol a'i fesur. Mae gan yr Heddlu neu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gyfrifoldeb am droseddu, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, tra bod y Byrddau Lleol Diogelu Plant yn gyfrifol am faterion diogelu/amddiffyn plant.

2.7 Mae eu cyfranogiad yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth, asesu, a rheoli unrhyw risgiau o'r fath. Felly, nid yw Redstart wedi'i gomisiynu i nodi materion yn ymwneud â pheryglon cymdeithasol a achosir gan ymddygiad gwrthgymdeithasol.

# 3. Gweithdrefnau

## 3.1 Ymweliad Safle

3.1.1 Cynhaliwyd asesiad safle cerdded i ymchwilio i'r llwybr ac i nodi peryglon / gwaith adfer posibl sydd ei angen er mwyn darparu llwybr cerdded diogel. Cafodd y llwybr ei gerdded ar adegau i ddal amodau traffig arferol yn ystod yr amser yr oedd plant ysgol yn cerdded y llwybr.

3.1.2 Rhestrir isod enghreifftiau o beryglon safle nodweddiadol a fydd yn cael eu hystyried o ganlyniad i'r asesiad cerdded;

- Rhyng-welededd rhwng gyrwyr a cherddwyr, ar hyd y llwybr ac ar gyffyrdd bach;
- Nifer uchel o draffig wrth groesfannau a mathau o gerbydau sy'n defnyddio'r llwybr;
- Cyflwr wyneb y llwybr troed, lled defnyddiadwy, a chysylltedd rhwng llwybrau troed cyfagos;
- Unrhyw ddail sydd wedi gordyfu sy'n rhwystro symudiadau cerddwyr/sy'n culhau'r lled defnyddiadwy;
- Cerbydau'n parcio ar y droedffordd gan achosi rhwystr/gan gulhau'r lled defnyddiadwy.

## 3.2 Gwybodaeth i'w Darparu

3.2.1 Mae'r wybodaeth ganlynol i'w darparu yn rhan o'r asesiad;

a) Cynllun yn dangos y llwybrau a aseswyd;

b) Adroddiad yn nodi peryglon/risgiau posibl ac adferiad posibl ar gyfer pob perygl posibl a nodwyd.


# 4. Lleoliad y Safle a Llwybr Cerdded

## 4.1 Trosolwg Llwybr

4.1.1 Mae'r **Prif Lwybr** yn cychwyn yn Nhafarn y Bertie, sydd wedi'i lleoli ar Heol Coedcae, Pontypridd CF37 2NW. Mae'r llwybr yn mynd tua'r gorllewin ar hyd y ffyrdd canlynol: Heol Trehafod, Heol Coedcae, Heol Eirw, Heol Pontypridd, Stryd y Porth, Heol Rheola, Ffordd y Fynwent at gât Ysgol Gymunedol y Porth ar Ffordd y Fynwent, Porth CF39 0BS.

4.1.2 Ar adeg yr asesiad, roedd llwybr troed yn cael ei gau dros dro er mwyn amharu ar waith atgyweirio i wal gynnal ar yr A4058 rhwng y cyffyrdd gyda Heol Llwyncelyn a Heol Eirw, ac felly mae'r **Prif Lwybr** ar hyn o bryd rhwng Tafarn y Bertie a Heol Eirw. Er mwyn lliniaru hyn am hyd y gwaith atgyweirio i'r wal gynnal, bydd **Llwybr Amgen Dros Dro** ar waith rhwng Tafarn y Bertie a chanol tref y Porth drwy Lwybr Teithio Llesol NCN885 drwy Lwyncelyn i ailymuno â'r Prif Lwybr yn Heol Rheola.

**Delwedd 4.1 – Trehafod (Tafarn y Bertie) i Ysgol Gymuned y Porth (Delwedd © 2024 Airbus)**




4.1.3 Yn gyffredinol, mae llwybrau troed ar hyd y llwybr yn ddigon llydan i ganiatáu i gerddwyr fynd heibio'i gilydd yn ddidrafferth. Mae disgyblion sy'n byw ym mhentref Trehafod yn cerdded i Ysgol Gymuned y Porth ar hyn o bryd ac mae'r llwybr eisoes ar gael ac yn cael ei ddefnyddio bob dydd. Mae cysylltiadau i / o ysgolion cynradd yn ardaloedd Trehafod a Llwyncelyn eisoes ar gael ac yn cael eu defnyddio bob dydd.

4.1.4 Mae darnau di-dor o droedffordd, gyda chyfleoedd croesi a goleuadau stryd ar hyd y llwybr.

4.1.5 Lle'r oedd angen croesi ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod gwrthdaro rhwng cerbydau/cerddwyr yn risg isel.

4.1.6 Darperir cysylltedd rhwng llwybrau troed drwy gydol y daith gan groesfannau sebra, signalau traffig a mannau croesi heb eu rheoli eraill.

4.1.7 Mae terfyn cyflymder 20mya ar waith ar hyd y rhan fwyaf o'r llwybr a nodwyd bod y llif cerbydau yn gymedrol.

4.1.8 Mewn mannau, roedd angen clirio llystyfiant i wella lled y llwybr troed y gellir ei ddefnyddio a gwelededd i gerddwyr

## 4.2 Prif Lwybr – Tafarn y Bertie i Ysgol Gymuned y Porth

4.2.1 Tynnwyd ffotograffau 4.1 i 4.25 ar hyd y prif lwybr cerdded ac fe'u dangosir isod.

**Ffotograff 4.1 – Troedffordd gerllaw Tafarn y Bertie**



**Ffotograff 4.2 – Canghennau coed sy'n hongian a llystyfiant ar hyd y droedffordd**




**Ffotograffau 4.3a a 4.3b – Croesfan heb ei rheoli (lloches cerddwyr) ar y gylchfan ar yr A4058 gyda Heol Coedcae gyda llif traffig trwm**






**Ffotograff 4.4 – Croesfan heb ei rheoli (lloches i gerddwyr) ar yr A4058 gyda llif traffig trwm a chiwio**



**Ffotograff 4.5 – Troedffordd ar gau ar hyd yr A4058 oherwydd atgyweiriadau i'r wal gynnal (bydd y *Llwybr Amgen Dros Dro* ar waith nes bod y gwaith yma wedi ei gwblhau)**



**Ffotograff 4.6 – Troedffordd ar gau ar hyd yr A4058 oherwydd atgyweiriadau i'r wal gynnal (bydd y *Llwybr Amgen Dros Dro* ar waith nes bod y gwaith yma wedi ei gwblhau)**




**Ffotograff 4.7 – Rhan o ganllaw gwarchod i gerddwyr wrth ddynesu at groesfan â signalau ar yr A4058 (gwaith atgyweirio i'w wneud cyn ailagor y droedffordd)**



**Ffotograff 4.8 – Croesfan â signalau ar yr A4058 ger y gyffordd â Heol Eirw (troedffordd ar gau ar hyn o bryd oherwydd gwaith atgyweirio i'r wal gynnal)**




**Ffotograff 4.9 – Croesfan heb ei rheoli gyda lloches i gerddwyr gyferbyn â chyffordd Heol Eirw â'r A4058**


12.11.2024

**Ffotograff 4.10 – Croesfan â signalau y tu allan i rif 52 Heol Eirw**




**Ffotograff 4.11 – Troedffordd ar gau oherwydd datblygiad parhaus ger cyffordd Teras yr Afon â Heol Pontypridd**



**Ffotograff 4.12 – Croesfan sebra y tu allan i S & F Motors Ltd ar Heol Pontypridd**




**Ffotograff 4.13 – Croesfan â signalau y tu allan i'r hen neuadd bingo ar gyffordd Stryd Hannah â Heol Pontypridd**



**Ffotograffau 4.14 a 4.15 – Mannau croesi heb eu rheoli y naill ochr i gyffordd siop Morrisons ar Heol Pontypridd**







**Ffotograff 4.16 – Croesfan sebra y tu allan i Y Gwesty ger cyffordd Heol yr Orsaf â Heol Pontypridd**




**Ffotograff 4.17 – Croesfan â signalau ar gyffordd Stryd y Porth â'r A4233**




**Ffotograff 4.18 – Croesfan sebra ar y B4278 Stryd y Porth**



**Ffotograff 4.19 – Croesfan sebra ar y B4278 Stryd y Porth**




**Ffotograff 4.20 – Mannau croesi uchel heb eu rheoli ar Heol Rheola**



**Ffotograff 4.21 – Croesfan sebra ar y B4278 Heol Rheola ger Sgwâr Tynewydd**




**Ffotograff 4.22 – Croesfan sebra ar y B4278 Heol Rheola ger Sgwâr Tynewydd**



**Ffotograff 4.23 – Canghennau coed sy'n hongian ar hyd y B4278 Ffordd y Fynwent**



**Ffotograff 4.24 – Croesfan sebra ar y B4278 Ffordd y Fynwent ger y gyffordd â Heol Bryn Hyfryd, gyda'r golau croesi wedi'u cuddio'n rhannol gan ganghennau coed.**



**Ffotograffau 4.25 – Croesfan uchel heb ei rheoli ar y B4278 Ffordd y Fynwent ger y fynedfa i Ysgol Gymuned y Porth**




## 4.3 Llwybr Amgen Dros Dro – Tafarn y Bertie i Ysgol Gymuned y Porth (ar hyd Llwybr Teithio Llesol NCN885 i Lwyncelyn ac ymuno â'r Prif Lwybr yn Heol Rheola)

4.4.5 Tynnwyd ffotograffau 4.26 i 4.39 ar hyd y llwybr cerdded amgen dros dro ac fe'u dangosir isod.

**Ffotograff 4.26 – Croesfan sydd ddim yn cael ei rheoli o Dafarn y Bertie i'r Llwybr Teithio Llesol**




**Ffotograff 4.27 – Llwybr Teithio Llesol NCN 881 o Drehafod i Lwyncelyn o dan yr A4058**




**Ffotograff 4.28 – Llwybr troed defnydd a rennir NCN 881 o dan yr A4058**




**Ffotograff 4.29 – Llwybr troed defnydd a rennir NCN 881 gerllaw parc Trehafod**




**Ffotograff 4.30 – Pont Teithio Llesol defnydd a rennir NCN 881**




**Ffotograff 4.31 – Llwybr defnydd a rennir NCN 881 ger y rheilffordd**




**Ffotograff 4.32 – Llwybr defnydd a rennir NCN 881 yn ymuno â ffordd yr Ystad Ddiwydiannol oddi ar Heol Llwyncelyn**




**Ffotograff 4.33 – Llwybr defnydd a rennir NCN 881 yn ymuno â ffordd yr Ystad Ddiwydiannol oddi ar Heol Llwyncelyn**



**Ffotograff 4.34 – Troedffyrdd ar hyd y B4278 Heol Llwyncelyn**




**Ffotograff 4.35 – Croesfan wedi'i rheoli â signalau ar gyffordd y B4278 a Heol Llwyncelyn**



**Ffotograff 4.36 – Croesfan heb ei rheoli ar Heol y Gogledd**





**Ffotograff 4.37 – Ceir wedi parcio ar droedffordd y tu allan i rif 116 ar y B4278 Heol y Gogledd, yn cyfyngu ar fynediad troedffordd**



**Ffotograff 4.38 – Croesfan sebra ar y B4278 Stryd y Porth**




**Ffotograff 4.39 – Croesfan sebra ar y B4278 Stryd y Porth (yn ail-ymuno â’r Prif Lwybr yn y fan hon)**



# 5. Arolygon Cerddwyr / Traffig

5.1 Mae Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr yn nodi: Lle mae angen croesi ffyrdd, argymhellir y dylid ystyried argaeledd cyfleusterau croesi megis llochesi canolog, croesfannau cerddwyr neu arwyddion traffig. Lle nad oes cyfleusterau croesi, dylai asesiad risg y llwybr ystyried pob croesfan ffordd ofynnol, gan gofio cyflymder a llif traffig, llinellau gweld ac ati.

5.2 Os oes angen croesi ffyrdd dylai fod:

- Digon o fylchau yn llif y traffig a'r llinellau gweld i ganiatáu digon o gyfleoedd i groesi'n ddiogel. Dylai'r dadansoddiad amser bwlch gael ei ddefnyddio lle bo angen **neu**
- Llochesi i gerddwyr **neu**
- Cyfleusterau croesi (e.e. sebra, pelican, pâl ac ati) **neu**
- Cyfnod cerddwyr wrth y goleuadau traffig **neu**
- Hebryngwr Croesfan Ysgol.

5.3 Os oes angen croesi ffordd dylai'r gweledoedd yn y lleoliad ganiatáu i gerbyd stopio, o ystyried cyflymder yr 85fed canradd (y cyflymder y mae 85% o'r cerbydau'n teithio islaw) o'r llif traffig. Dylid cymryd pellteroedd stopio cerbydau fel y rhai a nodir yn Rheolau'r Ffordd Fawr. Mewn llawer o ardaloedd gwledig, mae'n debygol y bydd angen arfer barn barhaus. Ni all unrhyw feini prawf ddarparu'r holl arweiniad nac atebion i bob sefyllfa bosibl.

5.4 Os oes rhaid croesi ffyrdd i ddefnyddio troedffordd neu i wella llinellau gweld, efallai y bydd angen rhoi cyngor ar fannau croesi diogel. Ar rai ffyrdd gwledig efallai na fydd y droedffordd yn barhaus.

5.5 Bydd yn rhaid gwneud dyfarniad gwybodus ynghylch argaeledd mannau "cam i lawr".

5.6 Gellir asesu pa mor anodd yw croesi safle drwy ystyried nifer y bylchau yn llif y traffig sy'n dderbyniol i gerddwyr. Gall traffig sy'n llifo'n rhydd greu bylchau ar hap ac yn weddol aml, ond mae cyflymderau'n tueddu i fod yn uwch, a byddai angen i fylchau fod yn hirach er mwyn croesi'r ffordd yn ddiogel.

5.7 Mae bwlch derbyniol o ran croesi o un ochr y ffordd i'r llall yn amrywio rhwng pob person. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad. Efallai y bydd angen bylchau mwy o tua 10 i 12 eiliad ar rai eraill.

5.8 Argymhellir bod yr arolwg yn cofnodi nifer y bylchau ym mhob cyfnod o 5 munud sy'n hwy nag amser croesi'r ffordd, gan ddefnyddio un metr yr eiliad fel y cyflymder cerdded. Mae pedwar bwlch ym mhob cyfnod o 5 munud yn dynodi ffordd y gellir ei chroesi heb ormod o oedi. Gallai bylchau hirach fod wedi'u dosbarthu'n fylchau lluosog yn hytrach nag 1 bwlch yn unig.

5.9 Gyda'r meini prawf uchod mewn golwg, cynhaliwyd arolygon traffig i sefydlu llifoedd, cyflymder yr 85fed canradd a bylchau croesi yn y lleoliadau canlynol:

5.9.1 Mae dwy groesfan heb eu rheoli i gerddwyr gyda llochesau i gerddwyr yn y lleoliad yma, gan ganiatáu croesfan dau gam gyda llinellau gweld da wrth agosáu at y croesfannau. Roedd llif traffig yn ymddangos yn uchel yn y ddau leoliad, er bod cyflymder dynesiad yn ymddangos yn isel, o bosibl oherwydd y ciwiau cerbydau helaeth ar hyd y ffordd tua'r gorllewin. Yn ystod amser yr asesiad, roedd yn bosibl croesi gydag 'ewyllys da' gyrwyr a fyddai'n arafu neu'n stopio i adael bylchau i gerddwyr aros.







5.10 Mae'r Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr – Mehefin 2014 yn amlinellu'r hyn sydd ei angen wrth asesu Llif Traffig ar Ffyrdd.

5.11 Ystyr llif traffig isel yw ffyrdd sydd â llif traffig o dan 400 o gerbydau mewn cyfnod o awr; llif traffig canolig yw ffyrdd sydd â llif traffig rhwng 400 ac 840 cerbyd yr awr; a llif traffig trwm yw ffyrdd sydd â llif traffig o dros 840 o gerbydau yr awr.

5.12 Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad. Ystyrir bod pedwar bwlch o'r fath o fewn cyfnod o 5 munud yn dderbyniol.

5.13 Cynhaliwyd cyfrifiadau traffig yn y lleoliadau yma gyda chyfrifiadau'n cael eu cynnal rhwng 07:45 a 08:45 a 14:45 a 15:45, gydag ailymweliad pellach pan oedd y cyfrif traffig ar ei uchaf:

5.13.1 **Lleoliad – A4058 ar y ffordd i Gylchfan Parc Treftadaeth, o gyfeiriad y Porth i Bontypridd - 15/10/2024**

- **Yn y bore:** 1200 cerbyd yr awr, llif traffig uchel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 3 i 14, gyda chyfanswm o 81 o fylchau dros y cyfnod awr.

- **Yn y prynhawn:** 988 cerbyd yr awr, llif traffig uchel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 6 i 13, gyda chyfanswm o 103 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.13.2 **Ailymweld â'r lleoliad – yr A4058 wrth ddynesu at Gylchfan y Parc Treftadaeth, o gyfeiriad y Porth i Bontypridd - 22/10/2024**

- **Yn y bore:** 1091 cerbyd yr awr, llif traffig uchel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 0 i 24, gyda chyfanswm o 64 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Nodwyd bod llif y traffig yn araf a/neu wedi aros yn ei unfan yn ystod ymweliadau safle'r bore. Nid yw'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad yma ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

5.13.3 **Lleoliad – A4058 Cylchfan Parc Treftadaeth, o gyfeiriad Trehafod i'r Porth - 02/10/2024**

- **Yn y bore:** 1154 cerbyd yr awr, llif traffig uchel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 4 i 17, gyda chyfanswm o 114 o fylchau dros y cyfnod awr.

- **Yn y prynhawn:** 1295 cerbyd yr awr, llif traffig isel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 5 i 17, gyda chyfanswm o 117 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.13.4 **Ailymweld â lleoliad – A4058 Cylchfan Parc Treftadaeth, o gyfeiriad Trehafod i'r Porth - 11/10/2024**

- **Yn y prynhawn:** 1441 cerbyd yr awr, llif traffig uchel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 2 i 16, gyda chyfanswm o 87 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Nid yw llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

5.13.5 **Lleoliad – A4058 Cyn Allanfa Llwyncelyn - o gyfeiriad y Porth i Drehafod - 04/12/2024**

- **Yn y bore:** 828 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 0 i 18, gyda chyfanswm o 84 o fylchau dros y cyfnod awr.

- **Yn y prynhawn:** 1295 cerbyd yr awr, llif traffig uchel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 11 i 22, gyda chyfanswm o 178 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.13.6 **Ailymweld â'r lleoliad – A4058 Cyn Allanfa Llwyncelyn - o gyfeiriad y Porth i Drehafod - 05/12/2024**

- **Yn y prynhawn:** 903 cerbyd yr awr, llif traffig uchel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 8 i 19, gyda chyfanswm o 187 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Nodwyd bod llif y traffig yn araf a/neu wedi aros yn ei unfan yn ystod ymweliadau safle'r bore. Nid yw'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

5.13.7 **Lleoliad – A4058 Cyn Allanfa Llwyncelyn – o gyfeiriad Trehafod i'r Porth - 29/11/2024**

- **Yn y bore:** 908 cerbyd yr awr, llif traffig isel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 6 i 27, gyda chyfanswm o 174 o fylchau dros y cyfnod awr.

- **Yn y prynhawn:** 1448 cerbyd yr awr, llif traffig isel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 0 i 10, gyda chyfanswm o 62 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.13.8 **Ailymweld â'r lleoliad – A4058 Cyn Allanfa Llwyncelyn - o gyfeiriad y Porth i Drehafod - 30/11/2024**

- **Yn y prynhawn:** 919 cerbyd yr awr, llif traffig isel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 11 i 22, gyda chyfanswm o 182 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Nid yw'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

5.14 Fel y nodwyd yn adran 4.1.2 ar adeg yr asesiad, roedd llwybr troed ar gau dros dro i gynnal gwaith atgyweirio i wal gynnal ar yr A4058 rhwng cyffyrdd Heol Llwyncelyn a Heol Eirw. Mae methiant yr arolygon llif traffig a bylchau i gydymffurfio â’r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr, wedi pennu bod yr A4058 yn anaddas i’w chroesi i barhau ar hyd y prif lwybr, gan arwain at lwybr amgen dros dro, sy’n osgoi plant ysgol rhag croesi’r A4058.

5.15 Tra bod y Prif Lwybrau *'ddim ar gael'* ar hyn o bryd oherwydd gwaith atgyweirio parhaus i'r wal gynnal a leolir y tu ôl i lwybr troed yr A4058, rhwng y cyffyrdd â Heol Llwyncelyn a Heol Eirw, a ***Llwybr Amgen Dros Dro*** wedi cael ei ystyried ar hyd Rhwydwaith Cerdded a Beicio Teithio Llesol presennol NCN 885, hyd nes y bydd y gwaith atgyweirio wedi'i gwblhau a'r llwybr a ffefrir yn dod '*ar gael*' unwaith eto.

# 6. Materion Cymdeithasol

6.1 Ni nodwyd bod unrhyw fannau ar hyd y llwybr yn destun Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn ystod yr amseroedd pan fyddai plant ysgol yn cerdded i'r ysgol.

6.2 Serch hynny, mae adrannau o'r ***Llwybr Amgen Dros Dro*** ar hyd NCN 885 rhwng Tafarn y Bertie ac Ystad Ddiwydiannol Llwyncelyn, mae gwyliadwriaeth naturiol gyfyngedig ac eithrio cerddwyr a beicwyr eraill. Gweler y ffotograffau isod ar hyd adrannau o NCN 885.






6.3 Efallai y bydd materion eraill nad ydynt yn amlwg o asesiad ar droed, y byddai grwpiau defnyddwyr eraill yn eu nodi. Byddai angen i'r awdurdod lleol ystyried yr agweddau hyn gyda'r Heddlu ac asiantaethau diogelu eraill.

# 7. Data Gwrthdrawiadau

7.1 Ymchwiliwyd i ddata gwrthdrawiadau cerddwyr ar gyfer y 5 mlynedd rhwng 2020 a 2024 (wedi'u dilysu) trwy Crashmap.co.uk a data Gwrthdrawiadau Ffyrdd a Gofnodwyd gan yr Heddlu. Sylwch fod y Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr yn ei gwneud yn ofynnol i aseswyr ymgorffori 3 blynedd o hanes gwrthdrawiadau wrth asesu llwybr.

7.2 Mae'r data gwrthdrawiadau wedi cael ei ymchwilio yn ystod yr amseroedd y byddai plant ysgol yn cerdded y llwybr i nodi amodau traffig arferol yn ystod yr amser. Mae'r amseroedd hyn wedi'u nodi'n 07:00 – 09:30 ar gyfer taith yn y bore, a 14:30 – 17:00 ar gyfer taith yn y prynhawn.

7.3 Nid oedd unrhyw wrthdrawiadau a oedd yn ymwneud â cherddwyr ar hyd y llwybr yn ystod y cyfnod a aseswyd.

7.4 Digwyddodd y gwrthdrawiadau canlynol ar y **Prif Lwybr:**

1 gwrthdrawiad a arweiniodd at fân anafiadau yn Sgwâr Tynewydd i'r gorllewin o gyffordd Heol Aber-Rhondda. Dyddiad: 18/04/2023.

# 8. Trosolwg Llwybr

8.1 Mae'r llwybr o fewn terfynau cyflymder 20/30mya.

8.2 Mae troedffyrdd di-dor mewn cyflwr rhesymol ar hyd y llwybr. Serch hynny, yn ystod amser yr asesiad roedd dwy ran o'r llwybr troed a oedd ar gau dros dro i gerddwyr. Effeithiodd y lleoliadau yma ar argaeledd y llwybr cerdded arfaethedig:

- Mae'r llwybr troed deheuol ar hyd yr A4058 rhwng cylchfan y Parc Treftadaeth a chyffordd Heol Eirw ar gau dros dro oherwydd gwaith atgyweirio i'r wal gynnal. Mae colli'r llwybr troed yma yn allweddol i'r llwybr arfaethedig, oherwydd ar hyn o bryd, ni ellir ei osgoi'n ddiogel.

- Mae'r llwybr troed deheuol ar hyd Heol Pontypridd rhwng cyffordd Teras yr Afon a S & F Motors Ltd ar gau ar hyn o bryd oherwydd gwaith ailddatblygu. Mae modd osgoi hyn drwy ddefnyddio'r croesfannau rheoledig presennol.

Er mwyn lliniaru’r materion uchod, er bod y prif lwybr troed ar hyd yr A4058 rhwng cylchfan y Parc Treftadaeth a chyffordd Heol Eirw ar gau ar hyn o bryd ar gyfer gwaith atgyweirio i'r wal gynnal, argymhellir bod ***Llwybr Amgen Dros Dro*** ar hyd llwybr presennol NCN 885 Teithio Llesol yn cael ei ddefnyddio (gweler paragraff 4.3 am fanylion). Bydd y llwybr cerdded arfaethedig wedyn yn dychwelyd yn ôl i'r prif lwybr sydd ar gael ar ôl cwblhau'r gwaith i'r wal gynnal.

8.3 Gwelwyd bod coed yn hongian uwchben y droedffordd yn y lleoliadau canlynol:

- Y droedffordd orllewinol ar hyd Heol Coedcae gyferbyn â Thaith Pyllau Glo Cymru.

- Y llwybr troed tuag at y groesfan Sebra ar hyd y B4278 Ffordd y Fynwent, ger y gyffordd â Heol Bryn Hyfryd.

8.4 Mae rhannau ar wahân ar hyd y B4278 Heol y Gogledd a Heol Coedcae lle mae cerbydau sy'n parcio ar droedffyrdd yn cyfyngu ar led y llwybr troed y mae modd ei ddefnyddio. Gall cerbydau sy'n rhwystro llwybrau troed hefyd effeithio ar lwybrau cerdded, ond mae'r carfanau plismona cymdogaeth leol yn gweithio gyda thrigolion i helpu i leihau'r risgiau i gerddwyr gan gerbydau sydd wedi'u parcio fan hyn a fan draw.

8.5 Mae goleuadau stryd ar hyd y llwybr, er bod angen gwaith cynnal a chadw parhaus ar goed mewn rhai ardaloedd i sicrhau nad yw lefelau golau yn cael eu peryglu.

8.6 Ni nodwyd bod unrhyw fannau ar hyd y llwybr yn destun Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn ystod yr amseroedd pan fyddai plant ysgol yn cerdded i'r ysgol.

8.7 Mae ymchwiliad i wrthdrawiadau a arweiniodd at farwolaeth cerddwyr am y 5 mlynedd rhwng 2020 a 2024 wedi'i gynnal. Mae'r data'n dangos bod 1 gwrthdrawiad wedi digwydd yn ystod y cyfnod a ddadansoddwyd, gan arwain at 1 person â mân anafiadau.

8.8 Ar ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod yr amodau a arsylwyd yn darparu amgylchedd diogel i gerddwyr groesi. Aseswyd bod risg isel o wrthdaro rhwng cerbydau / cerddwyr, a nodwyd bod digon o fylchau croesi i gydymffurfio â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Ar adeg yr ymweliad safle, pan welwyd cerddwyr yn croesi, roeddent yn gallu gwneud hynny heb unrhyw drafferthion.

8.9 Mae cyfleusterau croesi wedi'u rheoli/heb eu rheoli yn y lleoliadau canlynol:

- Croesfan heb ei rheoli (lloches i gerddwyr) ar ryngwyneb cylchfan Heol Coedcae â'r A4058 (ger y Parc Treftadaeth).
- Croesfan heb ei rheoli (lloches i gerddwyr) i'r gorllewin o gyffordd B4278 Heol Llwyncelyn â'r A4058.
- Croesfan â signalau - Ychydig i'r gorllewin o gyffordd Heol Eirw â'r A4058.
- Croesfan â Signalau - Y tu allan i rif 52 Heol Eirw
- Croesfan Sebra – Y tu allan i S&F Motors Ltd ar y B4278 Heol Pontypridd.
- Croesfan â signalau – Y tu allan i'r hen neuadd bingo ger cyffordd y B4278 Heol Pontypridd a Stryd Hannah.
- Croesfan heb ei rheoli (adeiladau) – Tu allan i rif 12 (The Dog Parlour) ar y B4278 Heol Pontypridd.
- Croesfan Sebra – Y tu allan i dafarn Y Gwesty Porth ar y B4278 Heol Pontypridd.
- Croesfan â signalau – Y tu allan i adeilad y ganolfan telathrebu ger cyffordd y B4278 Heol Pontypridd a'r A4058.
- Croesfan Sebra – Ar gyffordd B4278 Stryd y Porth â Heol Rheola.
- Croesfan Sebra – Tu allan i Westy Tynewydd ar y B4278 Heol Rheola.
- Croesfan Sebra – Tu allan i Doner King/Pizzanos ar y B4278 Sgwâr Tynewydd.
- Croesfan Sebra - Ger cyffordd Heol Bryn Hyfryd a'r B4278 Ffordd y Fynwent.

8.10 Nodwyd bod llif traffig ar hyd yr A4058 yn uchel yn ystod amser yr arolwg. Lle gwelwyd cerbydau tua'r dwyrain yn **ciwio yn ôl** tua'r gorllewin o'r gylchfan yn y Parc Treftadaeth (a symud yn araf tu hwnt ar y ffordd osgoi), i'r gyffordd a reolir gan signalau gyferbyn â siop Morrisons. Arweiniodd hyn at gerbydau'n ciwio ar draws ac o bosibl yn rhwystro'r mannau croesi heb eu rheoli ar Gylchfan y Parc Treftadaeth a ger y gyffordd â Heol Llwyncelyn.

**Delwedd 8.1 – Problemau ciwio mewn cerbydau ar hyd yr A4058 rhwng cylchfan y Parc Treftadaeth a'r gyffordd â signalau gyferbyn â siop Morrisons**



# 9. Casgliadau ac Argymhellion

9.1 Yn ei gyflwr presennol nid yw'r Prif Lwybr rhwng Tafarn y Bertie a Heol Eirw ***yn bodloni'r meini prawf o ran cael ei ystyried ar gael i gerdded*** yn unol â'r canllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Mae'r gwaith atgyweirio i'r wal gynnal a chau troedffyrdd dros dro cysylltiedig yn atal cerddwyr rhag defnyddio'r rhan yma o'r prif lwybr. Argymhellir bod y ***Llwybr Amgen Dros Dro*** rhwng Tafran y Bertie a Stryd Rheola yn cael ei ddefnyddio nes bod y gwaith atgyweirio i'r wal gynnal wedi'i gwblhau. Bydd y llwybr cerdded wedyn yn dychwelyd i ddefnyddio'r *Prif Lwybr* ar ôl cwblhau'r gwaith yma.

9.2 Dylid cynnal gwelliannau pellach i'r llwybr cerdded i wella amodau ar gyfer defnyddwyr y llwybr ac er mwyn i'r llwybr ddod ar gael, mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Ymgymryd â/cwblhau'r gwaith atgyweirio i'r wal gynnal i'r de orllewin o gyffordd yr A4058 a Rhes Clifton. Cael gwared ar y rhwystr troedffordd sy'n atal cerddwyr rhag cerdded ar hyd yr A4058 i / o'r groesfan a reolir gan signalau i'r de-orllewin o Heol Eirw.

9.3 Dylid ystyried gwelliannau pellach i'r llwybr cerdded i wella amodau ar gyfer defnyddwyr y llwybr. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Cwblhau'r gwaith ger y droedffordd ddeheuol ar hyd Heol Pontypridd rhwng cyffordd Teras yr Afon a S&F Motors Ltd, sydd ar gau ar hyn o bryd oherwydd gwaith ailddatblygu. Mae modd osgoi hyn drwy ddefnyddio'r croesfannau rheoledig presennol.

- Ymgymryd ag atgyweiriadau i'r rhan(nau) o ganllaw gwarchod cerddwyr sydd wedi'u difrodi wrth ddynesu at y groesfan â signalau dros yr A4058 i gyrraedd Heol Eirw, gweler y llun isod.




- Monitro cyflwr coed a dail sy'n hongian. Lle mae coed a/neu ddail yn hongian neu'n ymledu i lwybrau troed, dylid torri'r ardaloedd hyn yn ôl i wella'r lled defnyddiadwy, llinellau gweld a gwyliadwriaeth naturiol. Yn ogystal â hyn, dylid symud malurion dail oddi ar lwybrau troed pan fo angen.

- Monitro rhwystrau troedffyrdd. Lle mae lled llwybrau troed yn parhau i gael ei gyfyngu gan geir wedi'u parcio, dylid gweithredu ar y cyd ag Adran briodol y Cyngor / carfanau plismona cymdogaeth leol.

REDSTART

Quest House
St Mellons Business Park
Fortran Rd, St. Mellons
Cardiff
CF3 0EY

www.redstartwales.com